GARDD
SALM 23

# Sut I Greu Eich Gardd Eich Hun Wedi'i Hysbrydoli Gan Salm 23

## Dyma'r pedwar cam sylfaenol sydd  i greu gardd eich hun ar sail Salm 23.

## 1. Coeden

**Mae'n bosib i bob gardd gynnwys coeden waeth pa mor fach ydyw.  Mae'n creu ffocws i'r llygad, yn darparu cysgod, yn gwneud i bobl godi eu golygon, ac yn denu bywyd gwyllt.  Bydd yn rhoi'r argraff fod eich llecyn yn fwy nag ydyw, gan fod y goeden yn ffurfio pont weledol rhwng eich gardd a'r amgylchedd.**

Mae Gardd Salm 23 Sioe Flodau Frenhinol Chelsea yn dangos beth sy'n bosib wrth gynnwys hyd yn oed un goeden drawiadol.

Mae'r ardd ei hun yn mesur 10 medr sgwâr yn unig (30 troedfedd sgwâr), maint sawl gardd gefn.  Ond mae'r defnydd dramatig a wnaed o'r goeden wedi trawsffurfio'r ardd.

'Mae'r goeden yn mynnu eich bod yn oedi oddi tani,' medd Sarah Eberle, y cynllunydd.

Felly efallai y byddwch chi hefyd am ystyried gosod sedd o dan eich coeden!

Edrychwch i weld pa fath o goed sy'n ffynnu yn eich ardal leol.  Bydd hyn eto'n dibynnu ar y math o bridd sydd gennych, ac i ba gyfeiriad mae'r tir yn wynebu.

Yna meddylwch beth ydych am i'r goeden ei wneud?  Ydych chi am blannu un goeden er mwyn creu ffocws?  Neu, a ydych am blannu rhes o goed lleol?  Neu, ydych chi am greu perllan fach?

Mae perllannau gwledydd Prydain, fel y dolydd, wedi dioddef ers yr Ail Ryfel Byd, gyda 90% wedi eu dymchwel. Dim ond 5 coeden ffrwythau  sydd eu hangen i greu perllan, felly gallwn i gyd helpu i newid y sefyllfa.

Wedi iddynt blannu blodau gwyllt, aeth Eglwys St John, Winchester ati i ychwanegu coed afalau cynhenid Hampshire.

'Rydyn ni'n gobeithio y bydd pawb yn mwynhau treulio amser yn yr ardd, a bwyta'r ffrwyth, pan fydd y coed yn ddigon aeddfed i dyfu cnwd,' medd y Parchg Christine Smith.

Os ydych chi'n ystyried un goeden yn unig, prynwch fath sy'n gynhenid ac sy'n debygol o ffynnu yn eich lleoliad.

Ystyriwch eich darn tir.  Oes digon o dir i dyfu derwen fawr y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei mwynhau?  Neu ydych chi am gael rhywbeth llai megis criafolen, fydd yn arddangos aeron hardd yn yr hydref?

Yr amser gorau i blannu coeden yw yn ystod y cyfnod cwsg, yn yr hydref a'r gaeaf.  Cloddiwch dwll sy'n fwy na digon o faint i gynnwys y gwreiddyn cyfan. Ychwanegwch ychydig o wrtaith (tail sydd wedi pydru) neu gompost er mwyn rhoi cychwyn da iddi.  Ni ddylid rhoi gormod o wrtaith, dim ond ychydig er mwyn iddi sefydlu system gwreiddiau da.

Os yw'n bosibl, taenwch ychydig o ffyngau mycorhisol ar y gwreiddiau.  Mae'r rhain i bob pwrpas yn ymestyn gwreiddiau'r goeden, gan ei galluogi i dynnu mwy o faeth o'r pridd, ac o ganlyniad, i ymgartrefu a thyfu lle cafodd ei phlannu. Po fwyaf o wreiddiau sydd gan eich coeden, mwyaf fydd ei gallu i amsugno dŵr. Cofiwch am yr angen i ddyfrio'r goeden yn rheolaidd os yw'r plannu'n digwydd rhwng Chwefror a Medi.

Mae cynnig gwych ar gael os ydych am gael coed i'w plannu mewn gardd sydd wedi'i hysbrydoli gan Salm 23.

Rydyn ni'n cydweithio â'n cyfeillion yn Coed Cadw (Woodland Trust). Mae Coed Cadw am sicrhau fod pawb o fewn y Deyrnas Unedig yn cael cyfle i blannu coeden, felly mae'n rhoi cannoedd ar filoedd o goed am ddim i ysgolion a chymunedau sydd am blannu ar dir agored  cyhoeddus.

Mae'r pecynnau yn amrywio mewn natur a maint. Beth am greu cartref i fywyd gwyllt, neu sirioli eich golygfa wrth gynnwys lliw gydol y flwyddyn? Beth am gasglu ffrwythau a chnau neu dyfu coed i ddarparu tanwydd ar gyfer eich llosgydd coed? Os yw eich llecyn yn fawr neu'n fach, mae gan Coed Cadw becyn sy'n addas ar eich cyfer.

Ewch i woodlandtrust.org.uk/freetrees os am wneud cais.

Dilynwch y cyfarwyddiadau syml hyn a bydd gennych yr holl bethau sylfaenol sydd eu hangen i greu gardd sydd wedi'i hysbrydoli gan Salm 23

## 2. Lle i eistedd

**Mae darparu lle i eistedd yn eich gardd yn galluogi pobl i ymlacio ac oedi ychydig.**

Yn Eglwys St James, Finchhampstead, gosodwyd sawl mainc o amgylch tir yr eglwys. Bydd pobl yn dod yno i eistedd yn dawel a meddwl am eu hanwyliaid sydd wedi'u claddu yno.  Mae eraill yn cyfarfod yno i gael sgwrs, am y rheswm syml ei fod yn lecyn prydferth.

Mae Eglwys St John, Winchester, ar Lwybr y Pererinion.  Mae'r fainc yng ngardd yr eglwys yn rhoi cyfle i bererinion aros a gorffwyso.  Ond defnyddir y fainc hon lawn cymaint gan famau a phlant bach wrth iddynt gael hoe wedi iddynt ddringo'r rhiw lle saif yr eglwys, a chan bobl leol eraill sy'n dod â fflasgiau o de ac yn eistedd yno a mwynhau'r olygfa brydferth.

Felly, y peth pwysicaf i'w gofio wrth osod sedd yn yr ardd yw'r angen am olygfa.

Pan yn ystyried darparu lle i eistedd, edrychwch beth sy'n bosib.  Os am wneud hyn mewn eglwys, rhaid gwybod beth a ganiateir.

Ond fel arfer, yr hyn sy'n cyfyngu ar eich dewisiadau yw'r arian sydd gennych i'w wario. Gallwch brynu sedd newydd, wrth gwrs. Os yw hynny'n rhy ddrud, edrychwch ar adnoddau eraill sydd ar gael.  Os ydych wedi cwympo coeden yn ddiweddar, oes modd defnyddio'r boncyff fel sedd?  Oes modd torri'r boncyff a chreu mainc pren garw?

Ydych chi am osgoi talu am sedd?  Efallai y bydd modd i chi ddod o hyd i seddau gardd ail-law yn eich canolfan ail-gylchu leol.  Neu chwiliwch ar safleoedd ail-gylchu megis Freecyclw, Guymtree a Facebay.

## 3. Dŵr

**Mae dŵr yn ychwanegu ymdeimlad o ymlacio a llonyddwch i unrhyw ardd, boed yn fawr neu'n fach. Pleser llwyr yw eistedd a gwrando ar sŵn y dŵr, a gwylio'r golau yn chwarae ar wyneb y dŵr.**

Ac wrth gwrs, mae dŵr  yn denu bywyd gwyllt.  Bydd anifeiliaid ac adar yn dod yno i gael diod. O greu'r cynefin priodol efallai y daw llyffantod, madfallod ac amrywiaeth fawr o bryfed gan gynnwys chwilod mursen a gweision y neidr.

Gallwch gynnwys dŵr mewn sawl ffordd, wrth greu ffrwd, pwll neu bistyll.

Ond y ffordd rataf o wneud hyn, ar gost o tua £50, yw prynu hanner casgen bren mewn canolfan arddio.

Wedi i chi ychwanegu'r dŵr, gosodwch blanhigion dŵr yn y gasgen.  Gallwch eu plannu mewn basgedi plastig. Ond yr hyn wnaethon ni oedd defnyddio cortyn i glymu lili'r dŵr i hen fricsen.  Bydd hyn yn cadw'r planhigyn yn ei le.

Cofiwch ddefnyddio pridd pwrpasol, addas ar gyfer y pyllau os yn defnyddio basgedi gan y bydd uwchbridd cyffredin yn rhy ffrwythlon i'w ddefnyddio mewn dŵr.  Bydd yn peri i haen o chwyn bwyd yr hwyaid ffurfio ar wyneb eich pwll hardd...rhywbeth nad ydych yn ei ddymuno, mae'n debyg!

Os yw eich cyllideb yn fach iawn, defnyddiwch hen gasgen ddŵr a'i thorri yn ei hanner. Defnyddiwch dâp i gau'r twll lle ddylai'r tap fod, a'i chlustogi â hen blastig. Bydd hen sachau plastig yn iawn. Wrth ddewis gwneud hyn, byddwch yn creu nodwedd ddŵr am y peth nesaf i ddim.

Fydd e ddim yn edrych mor ddeniadol â'r hanner casgen, felly dyma bwll sydd angen ei suddo i'r pridd. Ond beth bynnag wnewch chi, os ydych am ddenu bywyd gwyllt, bydd angen gosod eich casgen yn y ddaear.

Palwch dwll o'r maint cywir a gosod y gasgen ynddo. Gallwch orchuddio ymyl y pwll â cherrig, neu hyd yn oed ychwanegu ychydig o blanhigion sy'n hoffi tyfu wrth ochr dŵr, megis y lili neu'r astilbe.

Er mwyn cynorthwyo'r bywyd gwyllt, ychwanegwch gerrig a phridd nid yn unig o amgylch yr ochrau, ond hefyd y tu mewn i'r pwll gan adeiladu ramp o'r gwaelod i'r ymyl, er mwyn galluogi anifeiliaid a phryfetach i fynd i mewn ac allan.

## 3. Dolydd

**Mae 97% o ddolydd Prydain wedi eu colli ers yr Ail Ryfel Byd. Yn sgil hyn collwyd gwahanol fathau o bryfaid a pili-palod sydd nid yn unig yn rhan o'n treftadaeth ac yn rhannu'n hamgylchfyd, ond sydd hefyd yn rhan o ddechrau'r gadwyn fwyd.**

Felly, wrth greu gardd Salm 23, beth am gynnwys dôl fechan er mwyn newid hyn?

Gallech osod bwrdd du yno a gofyn i bobl nodi'r gwahanol fathau o fywyd gwyllt a welir ganddynt bob mis. Bydd hyn yn ennyn diddordeb pobl ac yn eu denu i gymryd rhan. Ac fe fydd yn eich cynorthwyo chi i weld pa wahaniaeth mae'r ddôl yn ei wneud.

Bydd dôl fach yn ychwanegu bywyd a gweadedd i unrhyw dirwedd. Dychmygwch laswellt hir yn cael ei chwythu gan y gwynt – bydd hyn yn gwneud i chi ddechrau ymlacio ar unwaith.

Bydd creu dôl o flodau gwyllt yn denu bywyd gwyllt. Cadwch olwg am y pili-palod canlynol - llwydion y ddôl, ieir bach gwynion, gwibwyr mawr, yn ogystal â'r gwas neidr eurdorchog a cheiliogod rhedyn. Ond bydd hefyd doreth o bryfaid, pryfaid cop a hyd yn oed ambell i chwistlen yn gwerthfawrogi'r cynefin glaswelltog hir.

Mae'r glaswellt sy'n tyfu ar lawntiau cyffredin gwledydd Prydain yn eithaf gwydn ac mae blodau gwyllt yn ei chael yn anodd i wreiddio. Felly dyma ychydig o awgrymiadau i chi.

Yn gyntaf, codwch y tyweirch a phlannu blodau gwyllt yn eu lle. Dyna wnaeth Eglwys St John yng Nghaer-wynt, gan greu stribedi o flodau gwyllt, medr o led, ar ddwy ochr y llwybr sy'n arwain at yr eglwys. Crewyd cysylltiad yn syth rhwng y ffordd a'r eglwys, a chafwyd ateb i broblem gwair gwydn.

Dywed y ficer, Y Parchg Christine Smith, "Mae gerddi, ac eglwysi yn fannau o adferiad. Mae drysau St John wedi bod ar agor ers dros 900 mlynedd. Mae'r ardd o flodau gwyllt yn gwneud y croeso a geir yma yn fwy gweladwy ac yn rhoi pleser i'r gymuned gyfan."

Derbyniodd yr eglwys grant gan archfarchnad leol i'w galluogi i wneud y gwaith, felly yr unig gost oedd amser a llafur.

Ymunodd llawer o'r gymuned leol gyda'r rhai oedd yn mynychu'r eglwys, am eu bod yn awyddus i weithio yn y pridd a chreu llecyn cymunedol prydferth.

'Cafwyd diwrnod gwych. Ers hynny, mae llawer wedi gwneud sylwadau hyfryd am yr ardd. Mae pobl wrth eu bodd ac yn ei charu.' medd Christine.

'Buaswn i wir yn annog eglwysi eraill i wneud rhywbeth tebyg.'

Mae'r ail awgrym yn syml – sef gadael i ran o'r glaswellt presennol dyfu'n naturiol a gweld beth ddaw yn sgil hynny. Fe wnaeth eglwys St John hyn yn ogystal â chreu borderi blodau gwyllt. Gwelsant y fioled gyffredin, tegeirianau prin, llygaid y dydd, briallu a blodau menyn yn ffynnu. Arweiniodd hyn at ddenu nid yn unig wenyn, ond hefyd pili-palod a gwyfynod nad oeddent i'w gweld yn nyddiau'r tyweirch gwair.

Os ydych yn dewis gwneud hyn, yna beth am gynnwys llecynnau o flodau gwyllt er mwyn cael amrywiaeth. Bydd yr hyn sy'n ffynnu yn dibynnu ar natur eich pridd ac i ba gyfeiriad mae'r tir yn wynebu, felly bydd angen gwybod hyn cyn mynd ati i brynu planhigion! Ydy'r tir yn y cysgod a'r pridd yn galchog, neu yn yr haul a'r pridd yn gleiog? I ba gyfeiriad mae'r darn tir yn wynebu?

Pa un bynnag, planhigyn ardderchog i'w blannu yw'r gribell felen. Dyma blanhigyn parasitig sy'n byw ar laswellt. Mae'n lleihau'r glasdir ac yn rhoi lle i flodau gwyllt fwrw eu had a gwreiddio.

Ac os am gael ychydig o liw, a blas yr haf, gellid ychwanegu Rosa Rugosa, y rhosyn gwyllt. Bydd hyn yn ychwanegu ychydig o uchder a gwaead gwahanol, a bydd yn denu gwenyn a chreaduriaid eraill sy'n peillio.

Mae'n hawdd cynnal a chadw dolydd. Dylid eu torri wedi i bopeth flodeuo, ac wedi i'r hadau ymddangos a disgyn. Casglwch yr holl laswellt sydd wedi ei dorri. Os na wnewch chi hyn, bydd yn ychwanegu maeth i'r pridd, ac mae blodau gwyllt yn tyfu'n well mewn pridd gwael. Felly rhowch yr hyn a dorrwyd ar y domen gompost. Neu, os yw'n ddiogel, gallwch ei ddefnyddio fel gwair.

Os ydych am blannu unrhyw blanhigion, neu osod tyweirch blodau gwyllt, cofiwch eu dyfrio wrth iddynt sefydlu eu hunain, oni bai fod y plannu'n digwydd yn yr hydref neu'r gwanwyn. Ond hyd yn oed bryd hynny, mae'n werth cadw golwg ar y tywydd.

Ac yn olaf, mae'n hyfryd cael cerdded trwy ddolydd (neu hyd yn oed gorwedd ynddynt), felly paratowch lwybrau drwy'r glaswellt hir yn ystod yr haf er mwyn i bawb gael mwynhau'r llecyn. Gall plant redeg a chwarae. Gall oedolion gerdded yn fwy hamddeol.

Gallwch ddefnyddio strimmer i wneud hyn. Ond os nad oes un gennych, mae modd defnyddio siswrn gwair ac ychydig o fôn braich.

## Cyfle i feddwl

Wedi i chi fod yn garddio, beth am oedi ychydig dros baned ac ystyried beth mae Salm 23 yn ei feddwl i chi fel grŵp, a meddwl am eich diwrnod o waith garddio? Defnyddiwch ein hadnoddau hwylus: salm23gardd

Byddem wrth ein bodd yn clywed sut hwyl gawsoch chi gyda'ch gardd Salm 23. Felly, anfonwch eich lluniau a hanes yr ardd a grewyd gennych yn eich cymuned i: **garden@biblesociety.org.uk**

GARDD
**SALM 23**

**Bible Society**, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG, UK
T: +44(0)1793 418418222 biblesociety.org.uk Registered charity 232759
**psalm23garden.co.uk**